

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr, Oasis
Dental Care Rhyl**

18 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad, lle rhoddwyd rhybudd, o Oasis Dental Care Rhyl, 43 Ffordd Elan, y Rhyl, Sir Ddinbych, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 18 Awst.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Oasis Dental Care Rhyl yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Rhyl, Sir Ddinbych . Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Oasis Dental Care Rhyl yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, un derbynnydd, ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Oasis Dental Care Rhyl yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd gan y practis system addas er mwyn ceisio barn y cleifion sy'n ei alluogi i asesu'n barhaol ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Canfuom fod pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwnaethom ganfod hefyd bod gan y practis systemau i helpu diogelu cleifion rhag y risg o groes-heintio.

Roedd y mwyafrif o'r staff clinigol cymwysedig wedi derbyn hyfforddiant addas ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar pelydrau-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd diogel. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cael gwybod a oedd un o'r deintyddion wedi derbyn yr hyfforddiant hwn, gan nad oedd tystysgrif ar gael. Gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn iddynt weithredu ar frys i fynd i'r afael â hyn (gweler Atodiad A am fwy o fanylion).

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrwydd ansawdd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer ymgymryd ag archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid. Gwnaethom argymhell hefyd bod y practis yn adolygu'r weithdrefn gwyno er mwyn i'r holl fanylion fod yn berthnasol i gleifion yng Nghymru.

Canfuom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad at y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd gan y practis system addas er mwyn ceisio barn y cleifion sy'n ei alluogi i asesu'n barhaol ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael casglu barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth maent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Ar yr achlysur hwn, ni ofynnwyd i atebwyr am eu caniatâd i ddefnyddio'r sylwadau penodol a wnaethant.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Canfuom fod 11 o'r 19 o gleifion wedi dweud eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau, ond dywedodd yr wyth arall nad oeddent yn gwybod. Gwelsom arwydd yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt wedi'i ddarparu ar beiriant ateb y practis. Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac roedd hyn yn galluogi i gleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag mewn argyfwng.

Gwelsom fod ychydig yn unig o wybodaeth hyrwyddo iechyd wedi'i harddangos yn y dderbynfa/man aros. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried darparu mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd, megis ymwybyddiaeth o ganser y geg, rhoi'r gorau i ysmegu, a gwybodaeth am sut y gallai cleifion wella iechyd eu cegau. Yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal, dylid cefnogi cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddarparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.

Dylai'r practis ystyried hefyd sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gellid defnyddio meintiau ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion. Y rheswm am hyn

yw bod y Safonau Iechyd a Gofal yn datgan bod yn rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a dull sy'n hygyrch, dealladwy ac yn sensitif i'w hanghenion.

Roedd gan y practis system er mwyn ceisio barn y cleifion, a dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd y practis. Gwelsom ganlyniadau'r arolwg holiadur diwethaf i gleifion, a gynhaliwyd ym mis Mai 2015, ac roeddent yn dangos lefel uchel o foddhad ymhlith y cleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cleifion erbyn hyn yn derbyn cardiau adborth, a gofynnir iddynt gwblhau eu hadborth ar-lein. Gwnaethom gynghori'r practis i fonitro'r dull hwn o dderbyn adborth ac ystyried defnyddio dulliau amgen er mwyn cyrraedd ystod ehangach o gleifion.

Pan wnaethom ofyn am y broses gwyno yn ein holiadur, dywedodd tua hanner y cleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno'n cael ei harddangos yn ardal aros y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd angen iddi gael ei diweddarau, ac rydym wedi gwneud argymhelliad ynghylch hyn yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn (tudalen 14). O ystyried sylwadau'r cleifion, efallai byddai'r practis am ystyried sut y gellid sicrhau bod y wybodaeth ynghylch cwynion yn fwy amlwg i gleifion.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Canfuom fod pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwnaethom ganfod hefyd bod gan y practis systemau i helpu diogelu cleifion rhag y risg o groes-heintio.

Roedd y mwyafrif o'r staff clinigol cymwysedig wedi derbyn hyfforddiant addas ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar pelydrau-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd diogel. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cael gwybod a oedd un o'r deintyddion wedi derbyn yr hyfforddiant hwn, gan nad oedd tystysgrif ar gael. Gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn iddynt weithredu ar frys i fynd i'r afael â hyn (gweler Atodiad A am fwy o fanylion).

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol y pedair ystafell driniaeth yn y practis a gweld eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Canfuwyd nad oedd dyfeisiau gorchuddio nodwyddau, er mwyn i nodwyddau gael eu gwaredu mewn modd diogel, yn cael eu defnyddio yn y practis. Gwnaethom siarad ag un o'r deintyddion, a ddywedodd ei fod yn symud y nodwydd â llaw yn ofalus, ond gwnaethom hysbysu y gallai hyn arwain at risg uchel o anafiadau gan nodwyddau ac argymhell y dylai'r practis ddefnyddio system fwy diogel i waredu nodwyddau a chwistrelli.

Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, mis Tachwedd 2013 oedd y tro diwethaf y gwnaed hyn. Gwnaethom gynghori y dylid cynnal asesiad risg er mwyn cael gwybod pa mor aml y mae angen gwneud profion dyfeisiau cludadwy.

Gwnaethom edrych ar y gwiriadau a oedd wedi'u cynnal ar y peiriant sy'n darparu'r aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd). Er inni gael sicrwydd ar lafar bod hwn yn cael ei wirio'n rheolaidd gan y staff a'i fod wedi cael ei wasanaethu, nid oedd gwiriadau o'r fath yn cael eu cofnodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r peiriant cywasgu (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).

Dadheintio offer

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Canfuom hefyd fod gweithdrefnau addas ar waith i ddiogelu cleifion rhag croes-heintio. Gwelsom hefyd fod llyfrau cofnodi wedi cael eu cwblhau ar gyfer profi a chynnal a chadw offer glanhau yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod yr offer yn cael eu glanhau'n effeithiol. Roedd hefyd system addas ar gyfer sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu defnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Gan fod yr ystafell ddadheintio'n fach iawn a heb awyriad naturiol, gwnaethom archwilio'r gwyntyllau awyru a oedd wedi'u gosod ar y nenfwd. Canfuom fod y gwyntyllau hyn yn peri i'r aer lifo o'r manau budr i'r manau glân yn yr ystafell. Fodd bynnag, er mwyn atal y risgiau o heintio offer glân, mae canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn argymhell y dylai'r aer lifo o'r manau glân i'r manau budr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried y system awyru yn yr ystafell ddadheintio fel bod y llif aer yn mynd o'r manau glân i'r manau budr er mwyn osgoi croes-heintio.

Roedd sinciau neilltuedig ar gyfer golchi dwylo ar gael er mwyn helpu i reoli heintiau, ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a oedd yn cyflawni'r gwaith o ddadheintio.

Er inni dderbyn sicrwydd bod y staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant addas o ran dadheintio, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,⁴ nid oedd cofnodion o hyn ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai fod gan yr holl staff sy'n cyflawni gwaith dadheintio gofnodion hyfforddiant unigol.

⁴ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn 2014, ond gwnaethom sylwi bod y dull archwilio a ddefnyddiwyd wedi'i lunio'n bennaf i'w ddefnyddio yn Lloegr, a gwnaethom argymhell bod y practis yn defnyddio'r dull archwilio a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 2014-05 sydd ar gyfer Cymru yn benodol.

Offer radiograffig (pelydr-X)

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y ddogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion am yr offer a'r gweithdrefnau pelydr-X y dylai staff eu dilyn, yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Ar wahân i un person, roedd yr holl staff clinigol cymwys wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol mewn ymbelydredd ïoneiddio. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cael gwybod a oedd un o'r deintyddion wedi ymgymryd â hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio o fewn y pum mlynedd ddiwethaf, gan nad oedd tystysgrif ar gael. Gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn iddynt gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn ar frys, o ganlyniad i'r pryderon diogelwch posibl y gallai hyn eu hachosi. Ceir manylion pellach ynglŷn â hyn, yn ogystal ag ymateb y practis, yn Atodiad A.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau pelydr-X wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau ansawdd y delweddau a gymerir, ond gwnaethom sylwi bod archwiliadau mwy diweddar yn rhoi llai o fanylion, a gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr archwiliadau yn cael eu cynnal/cofnodi'n gyson.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith. Gwelsom fod y gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel tu allan i'r practis, ond gwnaethom sylwi bod yr ardal hon yn anniben ac yn flêr, gyda bin orlawn, a gwnaethom gynghori'r practis i roi sylw i hyn.

Meddyginiaeth ac offer meddygol mewn argyfwng

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar gyfer sicrhau bod yr offer dadebru a'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod rhai deunyddiau plastig (llwybrau anadlu a mygydau) wedi cael eu newid yn ddiweddar, ond nad oedd yr hen ddeunyddiau wedi cael eu gwaredu.

Gwnaethom argymhell bod y practis yn gwaredu'r holl ddeunyddiau sydd wedi dod i ben er mwyn sicrhau na fyddent yn cael eu defnyddio'n ddamweiniol. Cafodd hyn ei gyflawni'n ddi-oed gan reolwr y practis.

Gwelsom dystiolaeth bod mwyafrif y staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a bod swyddogion cymorth cyntaf penodedig. Nid oedd tystysgrif un o'r deintyddion ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, ond anfonwyd hwn at AGIC y diwrnod wedyn. Dylai'r hyfforddiant hwn ddarparu'r sgiliau angenrheidiol i'r staff pe bai claf yn llewygu.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar gyfanswm o 23 o gofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodion pob un o'r pedwar deintydd a'r hylenydd. Ar y cyfan, canfuom fod safon y gwaith o gadw cofnodion cleifion yn briodol. Canfuom fod cleifion wedi'u hysbysu am risgiau, buddiannau a thriniaethau amgen er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Canfuom hefyd fod yr holl gleifion a oedd angen triniaeth yn derbyn cynllun triniaeth.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol ar gyfer gwella cofnodion y cleifion:

- Canfuom dau achos lle nad oedd delweddau pelydr-X a gymerwyd wedi cael eu graddio o ran ansawdd.
- Canfuom nad oedd pelydrau-X wedi'u cymryd ar gyfer dau o gleifion lle byddai hyn wedi bod yn briodol.

Gwnaethom edrych ar system y practis ar gyfer cael hanesion meddygol y cleifion, a chanfuom nad oedd y practis yn y gorffennol yn gofyn i hanesion meddygol gael eu cydlofnodi gan y deintyddion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u darllen, yn unol â'r hyn a ystyrir yn arfer da. Fodd bynnag, dangoswyd inni ffurflen newydd a oedd wedi cael ei haddasu i gynnwys gofod er mwyn i'r deintydd gydlofnodi, a gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl ddeintyddion yn defnyddio dull cyson i wirio'r ffurflenni hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

O ystyried y bylchau a welsom yn y sampl y gwnaethom ei harchwilio, dylid gwneud gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion cleifion, yn enwedig wrth gofnodi'r canlynol:

- ***Graddio delweddau pelydr-X***
- ***Pa mor aml mae pelydrau-X yn cael eu cymryd***

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrwydd ansawdd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid. Gwnaethom argymhell hefyd bod y practis yn diweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn i'r holl fanylion fod yn berthnasol i gleifion yng Nghymru.

Mae'r practis yn eiddo i ddarparwr corfforaethol a adweinir fel Oasis Dental Care. Roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Cafodd polisiâu a gweithdrefnau eu darparu a'u diweddarau'n ganolog gan y sefydliad corfforaethol ac nid oeddent yn gyfrifoldeb unigol y practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y polisiâu system ddyddio gyson er mwyn dangos pa rai oedd y fersiwn ddiweddaraf. Er enghraifft, roedd ar y polisi diogelu ddyddiad fersiwn Ionawr 2013, ond heb ddyddiad adolygu na thystiolaeth ei fod wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n gyfredol (hynny yw, yn defnyddio system ddyddio gyson).

Gwelsom fod y staff newydd i gyd yn derbyn rhaglen ymsefydlu, a gwelsom dystiolaeth fod y staff i gyd yn ymwybodol o'r polisiâu.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn fisol a chynhelir cyfarfodydd ar wahân ar gyfer nyrsys deintyddol bob pythefnos lle mae ystod o bynciau yn cael eu trafod. Dywedwyd wrthym fod staff yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Gwnaethom drafod y trefniadau ar gyfer arfarnu'r staff gyda rheolwr y practis, a dywedwyd wrthym fod y staff nyrsio yn cael arfarniadau blynyddol. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i nodi unrhyw

anghenion hyfforddi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw drefniadau i'r deintyddion gael arfarniadau, a gwnaethom awgrymu y gallai'r rhain gael ei gynnal gan y prif ddeintydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwneud trefniadau er mwyn i'r deintyddion gael arfarniadau.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis. Canfuom fod ychydig iawn o archwiliadau wedi'u cynnal yn y practis ac nid oedd unrhyw drefniadau swyddogol ar gyfer adolygu'r deintyddion a'r staff clinigol gan gymheiriaid er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod y prif ddeintydd yn cynllunio cynnal cyfarfodydd gyda'r deintyddion eraill, ond nid oedd hyn wedi'i ffurfioli eto.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys cynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Gwelsom enghreifftiau o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom hefyd fod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant yn ddiweddar. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn sicr eu bod yn derbyn triniaeth gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol, ac sy'n hyderus a chyfarwydd â'u gweithle.

Canfuom fod angen i dri deintydd sydd wedi'u cofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat ddiweddar'u tystysgrifau â'r wybodaeth gywir. Gwnaed trefniadau ar gyfer hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a wnaeth gytuno i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddar eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Canfuom fod yr holl aelodau staff newydd yn meddu ar dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er nad yw hyn yn orfodol i staff y practis.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol trwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom gofnodion i ddangos bod mwyafrif y staff clinigol wedi derbyn brechiadau priodol i'w hamddiffyn rhag

firysau a gludir yn y gwaed. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion brechiadau un deintydd ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion brechiadau yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff clinigol fel tystiolaeth eu bod wedi derbyn imiweiddiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn feirysau a gludir yn y gwaed.

Gwnaethom edrych ar sut yr ymdrinnid â chwynion gan gleifion yn y practis, a gwelsom fod trefniadau addas ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth am gwynion yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur, a dywedwyd wrthym ei bod yn cael ei chofnodi ar system cyfrifiadur yn unol â pholisi'r cwmni. Dywedwyd wrthym fod cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi'n briodol hefyd.

Gwelsom fod y broses gwyno yn cydymffurfio ar y cyfan â'r trefniadau yng ngweithdrefn gwyno cleifion y GIG a adwaenir fel 'Gweithio i Wella' a rheoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd y polisi'n cyfeirio at sefydliadau y gall cleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt gwyn. Fodd bynnag, roedd llawer o'r sefydliadau ond yn berthnasol i gleifion yn Lloegr ac nid oeddent yn berthnasol i gleifion yng Nghymru. Er enghraifft, roedd y polisi'n cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal (yr arolygiaeth gofal iechyd yn Lloegr) a'r Ombwdsmon Seneddol (yn hytrach nag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). Nid oedd manylion sefydliadau eraill y gall cleifion gysylltu â nhw, megis y cyngor iechyd cymuned a'r bwrdd iechyd lleol, wedi'u cynnwys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau'r weithdrefn/polisi cwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:

- ***Mae'r holl fanylion a ddarperir yn berthnasol i gleifion yng Nghymru.***
- ***Dylid dileu cyfeiriadau at sefydliadau sydd ond yn berthnasol i gleifion yn Lloegr.***
- ***Dylid cynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol a'r cyngor iechyd cymuned.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y gwelir tystiolaeth o welliant amlwg yn y maes hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Canfuom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad at y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Mae'r practis wedi'i leoli mewn ardal breswyl o'r Rhyl, ar lawr gwaelod uned manwerthu, ac mae ganddo bedair ystafell driniaeth. Mae maes parcio neilltuedig ar gyfer cleifion ar gael.

Mae mynediad at y practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac roedd fframiau'r drysau drwy gydol y practis yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i gadeiriau olwyn.

Roedd taith o amgylch yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y practis i'w weld yn lân, yn daclus, ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddi draw. Roedd y manau aros a'r dderbynfya o faint addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd gan y practis doiled hygyrch neillryw i gleifion ac un toiled neillryw i'r staff. Roedd y ddau doiled i'w gweld yn lân, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau ymolchi dwylo addas er mwyn rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwelsom fod y peiriannau cyflenwi papur toiled wedi'u torri yn y ddau doiled. Roedd hyn yn golygu na fyddai cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu mynd i mewn i doiled y cleifion yn hawdd. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cywiro hyn.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn nodi'r oriau agor, y rhif cyswllt mewn argyfwng, ac enwau a chymwysterau pob deintydd. Roedd prisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau'r GIG hefyd wedi'u harddangos.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n briodol.

Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw ar weinydd allanol bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd mesurau i ddiogelu a gwarchod cleifion a'u gwybodaeth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Oasis Dental Care Rhyl yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Oasis Dental Care Rhyl

Dyddiad yr arolygiad: 18 Awst 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>ANGEN SICRWYDD AR UNWAITH</p> <p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ar ddiwrnod yr arolygiad, canfuom nad oedd tystiolaeth, ar gyfer un deintydd, bod digon o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio wedi'i gwblhau o fewn y bum mlynedd diwethaf, gan nad oedd tystysgrif ar gael.</p> <p><u>Gofyniad sicrwydd ar unwaith</u></p> <p>Mae'n rhaid i hyfforddiant digonol mewn ymbelydredd ïoneiddio, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, gael ei gwblhau gan staff perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.</p>	<p>Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff, cyflogedig a hunangyflogedig, wedi derbyn digon o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2000. Erbyn hyn, mae'r deintydd roedd ei dystysgrif ar goll wedi cael tystiolaeth o fynychu a chwblhau cwrs Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar 30 Ionawr</p>	<p>E. Poole</p>	<p>Pythefnos</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14(2); Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, Rheoliad 11.	2013 ac yn aros am gopi o'r dystysgrif.		
Profiad y Claf				
6	Dylai'r practis ddarparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion. [Safonau Iechyd a Gofal 1.1]			
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
8	Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r peiriant cywasgu (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr). [Safonau Iechyd a Gofal 2.9]			
9	Dylai'r practis ystyried y system awyru yn yr ystafell ddadheintio, er mwyn i'r llif aer fynd o'r manau glân i'r manau brwnt er mwyn rhwystro croes-heintio. [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 6.40–6.45]			
9	Dylai fod gan yr holl staff sy'n chwarae rhan mewn gwaith dadheintio gofnodion			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	hyfforddiant unigol. [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru, Adran 1.26–2.40]			
11	<p>Gan ystyried y bylchau a welsom yn y sampl y gwnaethom edrych arni, dylid gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion, yn benodol trwy gofnodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Graddio delweddau pelydr-X • Pa mor aml mae pelydrau-X yn cael eu cymryd <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4]</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
12	<p>Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n gyfredol (hynny yw, yn defnyddio system ddyddio gyson).</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6]</p>			
13	Dylid gwneud trefniadau er mwyn i'r deintyddion gael arfarniadau.			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.61]			
13	<p>Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys cynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, Adran 14(2)]</p>			
13	<p>Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion brechiadau yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff clinigol fel tystiolaeth eu bod wedi derbyn imiwneiddiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn feirysau a gludir yn y gwaed.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2]</p>			
14	<p>Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau'r weithdrefn/polisi cwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl fanylion yn berthnasol i gleifion yng Nghymru. • Dylid dileu cyfeiriadau at sefydliadau sydd ond yn 			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>berthnasol i gleifion yn Lloegr.</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid cynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol a'r cyngor iechyd cymuned. <p>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, Adran 15(4a); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3]</p>			
Ansawdd yr Amgylchedd				
	-			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: